



PECYN CYMORTH I DDARPARWYR

www.oiahe.org.uk



office of the
independent
adjudicator



Croeso i'n Cynllun

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i helpu darparwyr sy'n newydd i SDA i ddeall beth mae eu haelodaeth yn ei olygu a sut mae ein Cynllun yn gweithio. Dylai hefyd fod o gymorth i Bwyntiau Cyswllt ac aelodau staff perthnasol eraill mewn darparwyr sy'n newydd i'n Cynllun. Pwy bynnag ydych chi, croeso i SDA!

► Dyma ein [neges groeso ar fideo](#).

Mae'r holl wybodaeth hon a mwy ar gael ar ein gwefan, ond gobeithiwn y bydd y pecyn cymorth hwn yn darparu rhywfaint o'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen arnoch i ddeall pwy ydym ni a sut mae ein Cynllun yn gweithio. Mae ein fideos SDA Maint Bite hefyd yn ymdrin â rhai o'r pynciau a gynhwysir yma ac maent yn ddefnyddiol ochr yn ochr â'r pecyn cymorth hwn.

► Dyma ein gweminar - '[Ein rôl, beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ei wneud](#)'.

Yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth hanfodol am ein Cynllun, mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys gwybodaeth am:

- Beth mae aelodaeth yn ei olygu i [weithdrefnau mewnol y darparydd](#).
- Pwy all [gwyno](#) a pha fathau o gwynion [y gallwn ni edrych arnynt, a'r rhai na allwn ni ymdrin â nhw](#).
- Sut rydym yn [adolygu cwynion](#) a'r hyn sydd o fewn ein gallu i [wneud pethau'n iawn](#) pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.
- Ein [rhaglen allgymorth](#).





Y PETHAU SYLFAENOL

Pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud

Rydym yn adolygu cwynion gan fyfyrwyr am ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwn o gwynion â darparwyr a sefydliadau myfyrwyr fel rhan bwysig o wella arfer.

Ein gweledigaeth yw bod myfyrwyr bob amser yn cael eu trin yn deg. Mae ein gwasanaeth yn annibynnol ac mae ein proses yn ddiudedd ac yn dryloyw.

- ➡ Darllenwch fwy am [ein Cynllun](#) and a sut y cafodd ei sefydlu ar ein gwefan.
- ➡ Darllenwch am [ein mudiad](#), ein gwerthoedd, ein strategaeth a'r ffordd yr ydym yn cael ein llywodraethu.
- ➡ Gallwch ddarganfod mwy am ein rôl yn [Fframwaith rheoleiddio AU](#).



Ein haelodau

Mae adran 11 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn diffinio'r darparwyr hynny, a elwir yn "sefydliadau cymwys", y mae'n ofynnol iddynt fod yn aelodau.

Mae'r llythyr a anfonwyd gennym at eich darparydd pan ymunodd â'n Cynllun yn egluro pam a phryd ddaeth y sefydliad yn aelod. Mae rhai darparwyr wedi bod yn aelodau ers i ni sefydlu'r Cynllun.

Gall myfyrwyr gwyno wrthym am unrhyw beth a wnaed gan y darparydd, neu y methodd ei wneud, o'r dyddiad y daeth yn aelod o'n Cynllun, cyhyd â bod y gŵyn yn un y gallwn edrych arni o dan ein Rheolau.

- ➡ Gallwch ddysgu mwy am [aelodaeth](#), darganfod beth sy'n digwydd pan fydd darparydd yn peidio â bod yn aelod o'n Cynllun a chwilio am aelodau eraill.
- ✉ Os na allwch ddod o hyd i lythyr aelodaeth eich darparydd, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am aelodaeth eich darparydd o'n Cynllun, e-bostiwch membership@oiahe.org.uk.





Ein Rheolau

Mae ein Rheolau'n gosod allan:

- ▶ Sut mae ein Cynllun yn gweithio
- ▶ Pwy all gwyno
- ▶ Yr hyn y gallwn ac na allwn edrych arno
- ▶ Sut rydyn ni'n adolygu cwynion
- ▶ Beth sy'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch ei wneud.



Mae'r [Nodyn arweiniol](#) sy'n cyd-fynd â'n Rheolau yn esbonio sut rydyn ni'n eu gweithredu a beth mae rhai o'r termau rydyn ni'n eu defnyddio yn ei olygu.

Mae'n bwysig bod aelodau'n cydymffurfio â Rheolau ein Cynllun a bod eu gweithdrefnau a'u rheoliadau yn gydnaws â'n Rheolau.

- ➡ Darllenwch fwy am [ein Rheolau](#) ar ein gwefan.
- ➡ Mae [ein geirfa](#) yn cynnwys esboniadau cryno o rai o'r termau rydyn ni'n eu defnyddio'n rheolaidd ac yn rhoi diffiniad eang o'r hyn rydyn ni'n ei olygu pan fyddwn ni'n eu defnyddio.

Sut rydyn ni'n cael ein hariannu

Nid oes angen i fyfyrwyr dalu am ddod â chŵyn atom. Cawn ein hariannu gan danysgrifiadau gorfodol gan ein haelodau. Mae dwy elfen i'r ffi tanysgrifio: tanysgrifiad craidd ac elfen sy'n gysylltiedig ag achosion. Nid yw'r elfen sy'n gysylltiedig ag achosion yn seiliedig ar unrhyw benderfyniad i gadarnhau cwyn y myfyriwr.



- ➡ Gallwch ddarganfod mwy am [danysgrifiadau](#), pwyntiau achos a sut rydym yn cyfrifo'r elfen sy'n gysylltiedig ag achosion.

Sut rydyn ni'n cadw mewn cysylltiad

Gofynnwn i bob darparydd enwebu Pwynt Cyswllt (PC) i ni ddelio â nhw. Prif rôl PC yw cydlynu â ni ynghylch cwynion unigol ac ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth. Rydym yn argymhell bod darparwyr hefyd yn enwebu Cynrychiolydd PC a fydd yn gallu ein helpu os nad yw'r PC ar gael am unrhyw reswm.

Os yw'ch darparydd yn aelod newydd o'n Cynllun, rhowch wybod i ni pwy fydd yn gweithredu fel ein PC a'r Cynrychiolydd PC cyn gynted â phosibl trwy anfon e-bost atom yn:

✉ membership@oiahe.org.uk.

➡ Gallwch ddysgu mwy am rôl y [Pwynt Cyswllt](#) ac archwilio'r wybodaeth ar gyfer PC ar ein gwefan.

Rydym yn creu cyfrif MyOIA ar gyfer pob darparydd sy'n aelod. Pan fyddwn yn gwybod pwy fydd yn gweithredu fel ein PC, byddwn yn anfon manylion mewngofnodi atynt ar gyfer cyfrif y darparydd. Gall darparwyr ddefnyddio MyOIA i olrhain cwynion, rheoli manylion cyswllt ac ychwanegu defnyddwyr eraill. Gall y rhai sydd eisoes yn aelodau o'n Cynllun ddefnyddio MyOIA i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'n PC neu Gynrychiolydd PC.

➡ Dysgwch fwy am [MyOIA](#).

Mae ein e-gylchlythyrau yn cynnwys gwybodaeth a diweddariadau pwysig, felly mae'n bwysig bod PC a Chynrychiolwyr PC yn eu darllen ac yn sicrhau bod eu gosodiadau e-bost yn caniatáu iddynt ddod drwodd i'w mewnflwch. Rydym yn anfon yr e-gylchlythyrau at PC a Chynrychiolwyr PC yn awtomatig, ond gall unrhyw staff eraill sydd â diddordeb mewn eu derbyn danysgrifio hefyd trwy ein gwefan.

➡ Gallwch fwrw golwg ar ein [e-gylchlythyr diweddaraf a thanysgrifio](#).





GWEITHDREFNAU MEWNOL Y DARPARWYR

Mae angen i ddarparwyr fod â gweithdrefnau mewnol ar waith i ddelio â'r gwahanol bethau a all ddigwydd yn ystod astudiaethau myfyriwr. Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond gall y gweithdrefnau hyn gynnwys prosesau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- ▶ cwynion gan fyfyrwyr
- ▶ apeliadau academiaidd
- ▶ materion disgyblu academiaidd ac anacademaidd
- ▶ addasrwydd i ymarfer
- ▶ addasrwydd ar gyfer astudio
- ▶ gweithredu'n groes i godau ymddygiad a rheoliadau



Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau

Fel arfer, rydym yn disgwyl i fyfyrwyr gwblhau gweithdrefnau mewnol eu darparydd cyn dod â chŵyn atom ni. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r darparydd ymchwilio i'r mater, a gwneud pethau'n iawn, lle bo hynny'n briodol.

Pan fydd myfyriwr wedi cyrraedd diwedd gweithdrefnau'r darparydd ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallant eu cymryd yn fewnol, dylai'r darparydd gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (LICG) yn unol â'r canllawiau rydyn ni wedi'u cyhoeddi.

Mae ein nodyn arweiniol ar gyfer y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn egluro'n fanylach pryd mae angen i ddarparwyr gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a pha wybodaeth y dylid ei chynnwys.

Mewn [amgylchiadau eithriadol](#) mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu adolygu cwyn hyd yn oed os nad yw'r myfyriwr wedi cwblhau gweithdrefnau mewnol y darparydd neu os nad oes ganddo Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau.


➡ Gallwch ddysgu mwy am ein [Canllawiau ar gyfer Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau](#).



Cyfeirio myfyrwyr at ein Cynllun

Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn gwybod ei bod yn bosibl y gallwn adolygu eu cwyn yn annibynnol os ydyn nhw'n anhapus â chanlyniad gweithdrefnau'r darparydd. Yn ogystal â sicrhau eu bod yn rhoi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i fyfyrwyr pan nad oes unrhyw gamau pellach y gallant eu cymryd yn fewnol, mae angen i ddarparwyr hefyd sicrhau bod eu rheoliadau yn cynnwys gwybodaeth glir am ein Cynllun.

➡ Mae yna [ganllawiau](#) ar ein gwefan i helpu darparwyr i wneud hyn.




Fframwaith Arfer Da

Mae ein Fframwaith Arfer Da (FfAD) yn rhoi arweiniad ar gyfer trin cwynion ac apeliadau academiaidd mewn addysg uwch yng Nghymru a Lloegr; datblygwyd y fframwaith mewn ymgynghoriad â darparwyr, undebau myfyrwyr, sefydliadau addysg uwch a mudiadau sy'n ymdrin â chwynion. Mae i'r FFAD wyth egwyddor graidd ac mae'n cynnwys canllawiau arfer da i helpu darparwyr â chynllunio a gweithredu gweithdrefnau mewnol. Dylai gweithdrefnau darparydd fod yn gyson â'r canllawiau a'r egwyddorion a nodir yn y FfAD. Mae gwahanol adrannau'r FfAD yn llywio'r ffordd yr ydym yn adolygu cwynion sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau hynny.



➡ Gallwch fwrw golwg ar y gwahanol adrannau o'n [Fframwaith Arfer Da](#). A yw gweithdrefnau eich darparydd yn gyson â'r canllawiau?

Sut mae'r adrannau'n cyd-fynd â'i gilydd



8 Egwyddor y Fframwaith Arfer Da

- ▶ Hygyrchedd
- ▶ Tegwch
- ▶ Eglurder
- ▶ Annibyniaeth
- ▶ Cymesuredd
- ▶ Cyfrinachedd
- ▶ Prydlondeb
- ▶ Gwellu profiad myfyrwyr

Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill

Bydd rhai aelodau'n cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill. Mae'n bosibl y bydd eich darparydd yn cyflwyno cyrsiau sy'n arwain at ddyfarniad gan ddarparydd arall, neu gall fod yn bartner dyfarnu neu ddilysu i ddarparydd arall. Mae hefyd yn bosibl bod y darparydd partner wedi'i leoli yng Nghymru neu Loegr, neu gall fod wedi'i leoli dramor.

Dylai darparwyr sy'n aelodau a'u partneriaid cydweithredol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cyfeirio at ein Cynllun. Dylai'r gweithdrefnau nodi'n glir a all myfyriwr fynd â'i gŵyn neu apel at bartner dyfarnu, yn ogystal â phryd a sut y gall wneud hynny.

Mae'r adran 'Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill' o'r FfAD yn cynnwys canllawiau arfer da gweithredol ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau wrth weithio gydag eraill. Mae ein [Canllawiau ar gyfer Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau](#) hefyd yn cynnwys gwybodaeth i ddarparwyr ynghylch cyhoeddi Llythyrau CG pan fyddant yn cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill.

➡ Darllenwch ein hadran [Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill](#).





EIN PROSES

Pwy all gwyno?

Gallwn edrych ar gwynion gan fyfyrwr a chyn-fyfyrwr. Myfyriwr yw rhywun sydd, neu a oedd, wedi'i gofrestru mewn darparydd addysg uwch (AU), neu rywun sydd, neu a oedd, yn astudio ar gyfer un o gymwysterau'r darparydd. Gall y term "myfyriwr" gynnwys y rheiny sy'n derbyn hyfforddiant a phrentisiaid.

Gall myfyrwr mewn rhai darparwr, fel prifysgolion, gwyno wrthym ni pa bynnag gwrs yr oeddent yn astudio arno. Dim ond os ydyn nhw neu ar gwrs lefel AU y gall myfyrwr sy'n astudio mewn darparwr eraill ddod â chwyn atom. Mae'r wybodaeth ar ein gwefan am bob darparydd yn esbonio a oes angen i'w fyfyrwr fod ar gwrs AU i allu cwyno wrthym.



➔ Gallwch ganfod mwy:

- ▶ [Pwy all gwyno?](#)
- ▶ [Chwilio am aelod](#)





Yr hyn y gallwn ac na allwn edrych arno

Gall myfyrwyr gwyno wrthym am unrhyw beth y mae darparydd wedi'i wneud neu wedi methu ei wneud. Gall hyn fod ynglŷn â rhaglen astudio, gwasanaeth neu benderfyniad terfynol corff disgyblu neu ymdrin ag apeliadau'r darparydd.



Mae'r cwynion y gallwn roi sylw iddynt yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig, i'r canlynol:

- ▶ Apeliadau academiaidd
- ▶ Llety
- ▶ Bwlio ac aflonyddu
- ▶ Materion disgyblu (gan gynnwys llên-ladrad)
- ▶ Camwahaniaethu
- ▶ Amgylchiadau lliniarol
- ▶ Prosesau addasrwydd i ymarfer
- ▶ Lleoliadau gwaith
- ▶ Anghysondeb trefniannol
- ▶ Goruchwyliaeth ymchwil
- ▶ Darpariaeth a chyfleusterau addysgu
- ▶ Arferion annheg
- ▶ Lles



O dan ein Rheolau mae yna rai cwynion na allwn edrych arny'n nhw a chwynion eraill efallai y byddwn ni'n penderfynu peidio ag edrych arny'n nhw, er enghraifft:

- ▶ Materion derbyn - oni bai bod y sawl sy'n cwyno'n gyn-fyfyriwr yn y darparydd addysg uwch hwnnw ac yn gwneud cais i gael ei ail-dderbyn, a bod y gŵyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'i amser fel myfyriwr.
- ▶ Dyfarniad academiaidd - er enghraifft marc terfynol am ddarn o waith (ond gallwn edrych ar y broses farcio, e.e. rhagfarn)
- ▶ Cyflogaeth myfyrwyr
- ▶ Achosion cyfreithiol parhaus - oni bai eu bod wedi cael eu gohirio
- ▶ Materion sy'n cael eu hystyried gan gorff datrys anghydfod (CDA) arall

➡ Darllenwch fwy am [ein Rheolau](#) ynghylch yr hyn y gallwn edrych arno a'r hyn na allwn roi sylw iddo ar ein gwefan.

Sut mae myfyriwr yn mynd ati i gwyno? A fydd y darparydd yn gwybod bod y myfyriwr wedi gwneud cwyn?

Mae gan fyfyrwyr 12 mis i ddod â chwyn atom ni. Mae hwn yn derfyn amser llym ac mae'r cloc fel arfer yn cychwyn o'r dyddiad y cyhoeddwyd y Llythyr CG. Nid oes ond angen i'r myfyriwr anfon y Llythyr CG atom, ynghyd a'i Ffurflen Gwynion wedi'i chwblhau a'i llofnodi. Gall y myfyriwr gwblhau ein Ffurflen Gwynion ar-lein trwy ein porth MyOIA. Gall darparwyr hefyd ddefnyddio MyOIA i olrhain cwynion amdanynt.

Byddwn yn penderfynu a yw cwyn y myfyriwr yn un y gallwn edrych arni o dan ein Rheolau, a byddwn yn rhoi gwybod i'r myfyriwr a'r darparydd.



Ein hadolygiad

Os penderfynwn y gallwn edrych ar gŵyn, bydd fel arfer yn symud ymlaen trwy sawl cam o'n proses adolygu cyn i ni benderfynu ar y canlyniad. Mae ein siart-llif ar gyfer y prosesau'n darparu canllaw gweledol ar sut mae ein Cynllun yn gweithio.

Byddwn yn anfon copi o gŵyn y myfyriwr at y darparydd, a bydd cyfle i'r myfyriwr a'r darparydd wneud sylwadau. Byddwn fel arfer yn edrych ar benderfyniad terfynol y darparydd ac yn gofyn am gael gweld y wybodaeth a'r dogfennau a oedd yn rhan o'r broses a ddilynwyd. Pan fyddwn ni'n adolygu cwyn, byddwn fel arfer yn gofyn:

1. A wnaeth y darparydd ddilyn ei weithdrefnau ei hun?
2. A oedd y gweithdrefnau'n deg?
3. A oedd penderfyniad terfynol y darparydd yn rhesymol?

➡ Dysgwch fwy am sut rydyn ni'n adolygu cwynion:

- ▶ Gallwch fwrw golwg ar [siart-llif ar gyfer ein prosesau](#)
- ▶ Cewch wybod mwy am [ein dulliau a'n prosesau](#)
- ▶ Darllenwch ein canllawiau ar gyfer Pwyntiau Cyswllt ar ymateb i'n [ceisiadau am wybodaeth](#)
- ▶ Mae ein [crynodedau o achosion](#) yn rhoi enghreifftiau o'r cwynion a dderbyniwn a'r penderfyniadau a wnawn
- ▶ Gwylwch ein fideo [SDA Bite Size](#) ar broses cwyn.



Setliad

Rydym bob amser yn ceisio datrys cwyn cyn gynted ag y gallwn. Mae'n bosibl y byddwn yn ceisio setlo cwyn os bu gwall gweithdrefnol amlwg a allai fod wedi cael effaith ar yr achos, neu os yw unrhyw un o'r amgylchiadau'n awgrymu y gallai setliad fod yn ffordd well o ddatrys y mater yn anffurfiol. Os byddwn yn setlo cwyn, fel rheol ni fydd angen i ni gynnal adolygiad llawn na chyhoeddi Canlyniad y Gŵyn.

➡ Gallwch ganfod mwy am ein dull o gyrraedd [setliad](#).



Ein penderfyniad: Canlyniad y Gŵyn

Byddwn yn penderfynu a oes Cyfiawnhad, Rhywfaint o Gyfiawnhad neu Ddim Cyfiawnhad am y gŵyn, a byddwn yn esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniad yng Nghanlyniad y Gŵyn.

Anfonir Canlyniad y Gŵyn at y myfyriwr a'r darparydd.

➡ Gallwch ganfod mwy am [ein penderfyniad](#).



Gwneud pethau'n iawn

Os penderfynwn fod Cyfiawnhad, Rhywfaint o Gyfiawnhad neu Ddim Cyfiawnhad am y gŵyn, byddwn fel arfer yn gwneud un neu fwy o Argymhellion i wneud pethau'n iawn i'r myfyriwr a/neu i wella arfer y darparydd.

Argymhellion sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr:

Lle bynnag y bo modd, byddwn yn ceisio gwneud Argymhellion sy'n rhoi'r myfyriwr yn ôl yn y sefyllfa yr oedd ynddi cyn i'r digwyddiadau y cwynwyd amdanynt ddigwydd. Er y byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r datrysiad y byddai'r myfyriwr am ei gael, efallai na fydd hyn bob amser yn realistig nac o fewn cylch gwaith ein Cynllun (er enghraifft, os yw'n ymwneud â barn academiaidd neu gais am ddwyn achos disgyblu yn erbyn aelod/aelodau unigol o staff).

Dyma rai enghreifftiau o ddatrysiadau ymarferol y gallwn eu hargymell:

- ▶ Ail-gynnal proses yr effeithiwyd arni gan wallau gweithdrefnol neu ragfarn o bosib.
- ▶ Cynnig cyfle i asesu o'r newydd.
- ▶ Ail-farcio gwaith gan ddilyn y gweithdrefnau asesu cywir.
- ▶ Cynnig ymddiheuriad.

Os nad yw datrysiadau ymarferol ar gael neu'n briodol, gallwn ystyried datrysiadau eraill - megis iawndal ariannol.

Argymhellion ar gyfer arfer da:

Gallwn hefyd argymell bod darparydd yn newid y ffordd y mae'n gwneud pethau fel nad yw problemau'n codi eto, er enghraifft newid gweithdrefn neu reoliad sy'n rhoi myfyrwyr dan anfantais neu argymell bod staff yn derbyn hyfforddiant penodol.

Mae'r myfyriwr a'r darparydd yn cael cyfle i wneud sylwadau ynghylch ymarferoldeb ein Hargymhellion cyn i ni eu cadarnhau. Ar ôl i'r Argymhellion gael eu cadarnhau, rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â nhw o fewn unrhyw derfyn amser a bennwyd.

- ➡ Gallwch ddysgu mwy am ein dulliau o [wneud pethau'n iawn](#), gan gynnwys ein hagwedd tuag at iawndal ariannol.
- ➡ Yn ein profiad ni, mae darparwyr bron bob amser yn cydymffurfio â'n Hargymhellion neu geisiadau am wybodaeth, ond mae gwybodaeth ynghylch [sut rydym yn delio â diffyg cydymffurfio](#) ar ein gwefan.




Cewch wybod mwy am ein dulliau a'r cwynion rydym yn eu hadolygu



- Mae ein [Hadroddiadau Blynnyddol](#) yn cynnwys gwybodaeth am y cwynion yr ymdriniwyd â nhw'r flwyddyn honno, gan gynnwys tueddiadau, themâu cyffredin ac enghreifftiau o'r Argymhellion a wnaethom.



- Rydym yn cyhoeddi [Datganiad Blynnyddol](#) ar gyfer pob darparpwydd sy'n aelod. Mae'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am record y darparpwydd wrth drin cwynion ac apelïadau'r flwyddyn honno.



- Yn ogystal â'n Fframwaith Arfer Da, rydym o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi nodiadau briffio gyda mwy o wybodaeth am ein dulliau o ymdrin â gwahanol fathau o gwynion. Gallwch ddod o hyd i'r rhain, ynghyd â chrynodeb o achosion, taflenni canllaw ac adnoddau allweddol, ynghyd â newyddion a diweddariadau pwysig eraill ar dudalennau [Adnoddau a Chyhoeddiadau](#) ein gwefan.



ALLGYMORTH

Mae'n bosibl mai prin iawn y bydd cwynion yn erbyn rhai darparwyr. Serch hynny, rydyn ni am i'n holl aelodau elwa o'n canllawiau arfer da a chyfleoedd i gymryd rhan yn ein gweithgareddau allgymorth. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau allgymorth, sy'n cynnwys ymweliadau, gweminarau a gweithdai. Mae ein holl weminarau a gweithdai am ddim ac yn agored i staff mewn darparwyr sy'n aelodau a chyrrff cynrychioli myfyrwyr (CCM) cysylltiedig. Maen nhw'n gyfle da i chi rannu eich syniadau a'ch profiadau gyda chydweithwyr o ddarparwyr a CCM eraill, yn ogystal â gyda ni. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu [SDA Bite Size](#), sef cyfres o fideos am ein Cynllun, ein proses a'n canllawiau y gallwch eu cyrchu pryd bynnag y mae angen.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am arfer da neu ein Cynllun, mae croeso i chi gysylltu â ni. Nid oes angen i chi aros nes i ni dderbyn cwyn.

➡ [Gallwch ddarganfod mwy](#)

✉ outreach@oiahe.org.uk



CYSYLLTWCH Â NI



**Second Floor, Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading, RG1 3AB**



0118 959 9813



**enquiries@oiahe.org.uk
outreach@oiahe.org.uk**



www.oiahe.org.uk

DILYNWCH NI



office of the
independent
adjudicator